

Canllawiau CultureStep 2017/18

Rhaglen wedi ei gyllido gan **Sefydliad Hodge** a **Sefydliad Moondance**, mae CultureStep wedi ei gynllunio i annog nawdd newydd ac i ddatblygu ymgysylltiadau busnes sefydledig â'r celfyddydau. Trwy CultureStep, mae C&B Cymru yn buddsoddi mewn partneriaethau arloesol o bob math rhwng y ddau sector, gan gyfoethogi prosiectau a chynyddu eu heffeithiolrwydd yn y tymor hir.

Blaenoriaethau a Meini Prawf

Rhaid i bob prosiect CultureStep fod o fudd i unigolion sydd yn byw yng Nghymru a rhaid i brosiectau fynd i'r afael ag **o leiaf un** o'r blaenoriaethau canlynol:

- **Celf a Phlant:** ymgysylltu â phobl ifanc dan anfantais gymdeithasol yn y celfyddydau, gan wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau rhai o'r pobl ifanc anoddaf i'w cyrraedd yng Nghymru.
- **Celf a Phobl Hŷn:** ymgysylltu pobl hŷn sy'n niweddiadwy a difreintiedig yn y celfyddydau, gan wneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w bywydau, gan gynnig ysbrydoliaeth i bobl sydd fel arfer yn cael eu hynysu oddi wrth deulu, ffrindiau a / neu gymdeithas.
- **Celf a Threchu Tlodi:** partneru'r celfyddydau i wella bywydau pobl sy'n byw mewn tlodi*.
- **Celf ac Iechyd:** cydweithio â'r celfyddydau i gynorthwyo lles meddyliol, emosiynol a / neu gorfforol.
- **Celf a'r Amgylchedd:** annog ymwybyddiaeth o, a dangos ymrwymiad i faterion amgylcheddol drwy'r celfyddydau.

* Mae **Celf a Threchu Tlodi** yn canolbwyntio ar bobl nad oes ganddynt adnoddau digonol i ddarparu safon byw derbyniol sy'n eu galluogi i gymryd rhan lawn mewn cymdeithas. Anogir prosiectau sy'n anelu at wella ansawdd bywyd unigolion a theuluoedd sy'n wynebu anfantais o'r fath.

Ym mhob achos, rhaid i'r partner busnes allu dangos ei fod yn bwriadu:

1. Cyflawni amcanion busnes nad eir i'r afael yn flaenorol drwy bartneriaeth celfyddydol NEU
2. Ymestyn ei berthynas â'r celfyddydau mewn modd diriaethol a sylweddol i gyflawni amcanion craidd.

Rhaid i bob prosiect hefyd ddangos:

- Amcanion busnes clir ar gyfer buddsoddi yn y bartneriaeth;
- Y potensial i ddatblygu perthynas gynaliadwy glir rhwng y naill barti;
- Gwerth am arian;
- Y gallu i reoli a chyflwyno'r bartneriaeth;
- Cynlluniau priodol ar gyfer credydu a gwerthuso.

Faint y Gallaf Geisio Amdano?

Mae CultureStep yn annog cynaliadwyedd buddsoddiad busnes ac yn rhoi cymhelliant i noddwyr newydd. Mae lefelau o fuddsoddiad yn dibynnu ar faint o amser y mae'r busnes wedi cefnogi'r celfyddydau yng Nghymru:

Os yw busnes yn ei flwyddyn gyntaf o gefnogi'r celfyddydau yng Nghymru neu os yw heb cefnogi am 5 mlynedd, uchafswm buddsoddiad CultureStep yw £1 am bob £2 a fuddsoddir gan y busnes.

Os yw busnes wedi bod yn cefnogi'r celfyddydau yng Nghymru am 2 flynedd neu'n hirach, uchafswm buddsoddiad CultureStep yw £1 am bob £3 a fuddsoddir gan y busnes.

Y lleiafswm o fuddsoddiad gan fusnes sy'n ofynnol yw £1,000 ar gyfer partneriaid yn eu blwyddyn gyntaf o noddi'r celfyddydau, a £1,500 wedi hynny. Lleiafswm buddsoddiad CultureStep yw £500.

Uchafswm y buddsoddiad trwy CultureStep yw £5,000. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau eithriadol, gallai'r panel ystyried ceisiadau hyd at £10,000. Dylai partneriaid sy'n dymuno gwneud cais am fwy na £5,000 ofyn am ganiatâd gan C&B Cymru cyn cyflwyno'r cais.

Sut mae'n gweithio?

Neilltuir Rheolwr C&B Cymru i bawb sy'n gwneud cais i CultureStep i gynghori'r ddau bartner ar y broses. Caiff y penderfyniadau eu gwneud gan Banel Buddsoddi C&B Cymru, sy'n cynnwys uwch gynrychiolwyr o fyd busnes, y celfyddydau a'r sector cyhoeddus a chaiff ei gadeirio gan Brif Weithredwr C&B Cymru. Mae'r panel yn cyfarfod 4 gwaith y flwyddyn. Fe gyhoeddir dyddiadau'r cyfarfodydd a therfynau amser gwneud cais ar wefan C&B Cymru – www.aandbcymru.org.uk.

Unwaith i chi ddarllen y canllawiau hyn, mae'r broses o wneud cais ar gyfer CultureStep fel a ganlyn:

- ✓ Cysylltwch â'ch swyddfa C&B Cymru leol i gael trafodaeth gychwynol am eich prosiect. Os ydych yn gymwys i wneud cais, bydd C&B Cymru yn e-bostio ffurflen gynnog i chi;
- ✓ Cwblhewch y ffurflen gais mewn ymgynghoriad gyda'ch partner a'i gyflwyno i C&B Cymru dros e-bost, dim hwyrach na'r dyddiad cau a gyhoeddwyd. Rydym yn cynghori eich bod yn cyflwyno cais draft o leiaf 3 diwrnod gwaith cyn y dyddiad cau, fel y gall C&B Cymru eich helpu i gryfhau'r cais cyn iddo gael ei gyflwyno;
- ✓ Bydd C&B Cymru yn eich hysbysu am ganlyniad eich cynnog o fewn 2 ddiwrnod gwaith i gyfarfod y panel;
- ✓ Os byddwch yn llwyddiannus, byddwch yn derbyn Atodlen, Llythyr Cynnog a Datganiad ar ôl derbyn e-bost yn cadarnhau buddsoddiad gan y partner busnes;
- ✓ Os bydd buddsoddiad C&B Cymru yn fwy na £1,000, bydd y taliad fel arfer yn cael ei rannu fel 70% o fewn 5 diwrnod gwaith o dderbyn y Datganiad wedi'i lofnodi a 30% ar ôl derbyn adroddiad gwerthuso boddhaol a datganiad ariannol. Os bydd buddsoddiad C&B Cymru yn is na £ 1,000, bydd taliad llawn yn cael ei wneud ar ôl derbyn adroddiad gwerthuso boddhaol a datganiad ariannol.

Sylwch y bydd C&B Cymru yn adolygu prosiectau fesul achos unigol. Mae penderfyniad Panel CultureStep yn derfynol. Nid oes proses ar gyfer apelio.

Cymhwyster ac Eithriadau y Rhaglen

Buddsoddiadau mewn nwyddau

Gall buddsoddiad mewn nwyddau gael ei gynnwys mewn prosiect fel elfen o gyfraniad y busnes. Bydd y panel yn ystyried partneriaethau sy'n cynnwys 100% o fuddsoddiad mewn nwyddau ond mae rhaid i gynigion o'r fath ddangos cost gwirioneddol i'r busnes.

Bydd cytundebau adran 106 rhwng awdurdodau lleol a datblygwyr hefyd yn cael eu hasesu ar sail achos unigol.

Nid yw amser staff i gymryd rhan mewn prosiectau neu reoli bartneriaethau (gan eithrio gwasanaethau proffesiynol) yn gymwys.

Yr hyn sy'n cael ei gynnwys

- Gwasanaethau proffesiynol a ddarperir i gynorthwyo'r prosiect e.e. Cyfreithiol neu Gyfrifeg
- Rhodd cynnyrch neu benthyciad nwyddau a ddarparwyd i gynorthwyo'r prosiect am bris cost (nid adwerthu)
- Refeniw a gollir yn sgil cyfraniadau a wneir at y prosiect, e.e. lleoliadau yn cael eu rhentu
- Dodrefnu adeiladau / lleoliadau mewn adeiladau a ddarperir yn sgil cytundeb adran 106
- Darperiaeth o leoliadau neu gyfleusterau diwylliannol addysgol / cymunedol mewn datblygiadau yn sgil adran 106

Cyfyngiadau ar fuddsoddiadau

Rhaid i arian ddod o gronfeydd y busnes ei hun, nid cronfeydd trydydd parti. Lle caiff taliadau eu rhannu, bydd y cyfanswm yn cael ei ystyried wrth benderfynu lefel y buddsoddiad. Ystyrir gwariant ar farchnata, cysylltiadau cyhoeddus neu hysbysebu lle mae'n cefnogi'r prosiect yn benodol. Efallai bydd C&B Cymru yn gofyn am dystiolaeth i ddangos hyn.

Manteision Busnes

Rhaid i brosiectau fod o fantais i'r partner busnes. Ni fydd C&B Cymru yn ariannu prosiectau sy'n seiliedig ar gyfraniadau elusennol. Nid yw prosiectau sy'n ddigwyddiadau cymdeithasol yn bennaf neu'n bartïon yn gymwys am fuddsoddiad.

Arian Newydd

Rhaid i brosiectau cymwys nodi arian busnes newydd y tu hwnt i unrhyw berthynas fasnachol sy'n bodoli rhwng y partneriaid.

Buddsoddiad Ôl-weithredol

Gall buddsoddiad busnes gael ei wneud i'r prosiect yr ydych yn ymgeisio amdani neu i ehangu a dyfnhau partneriaeth sydd wedi dechrau o fewn y 12 mis blaenorol. Ni ellir defnyddio buddsoddiad CultureStep yn ôl-weithredol.

Nwyddau Pris Cost

Lle bydd nwyddau, tocynnau a gwasanaethau yn cael eu prynu ar gyfer prosiect, gall C&B Cymru dim ond buddsoddi yn eu pris cost. Lle tocynnau yn cael eu prynu ar gyfer cyfranogwyr y prosiect, mae C&B Cymru yn gofyn am strategaeth a fydd yn sicrhau niferoedd ac efallai y bydd angen tystiolaeth o dderbynneb tocyn / data swyddfa docynnau cyn talu am docynnau.

Cyfyngiadau ar y Partner Celfyddydol

Mae CultureStep yn agored i aelodau celfyddydol C&B Cymru yn unig.

Dylai sefydliadau fod naill ai'n elusen gofrestredig neu'n sefydliad a sefydlwyd yn gyfreithiol fel cwmni dosbarthu di-elw. Bydd sefydliadau celfyddydol masnachol yn cael eu hasesu fesul achos unigol.

Gall artistiaid unigol fod yn gymwys lle maent yn aelodau o gymdeithasau proffesiynol perthnasol neu yn gallu cyflwyno enwau 2 ganolwr. Gall C&B Cymru ofyn am argymhelliad Cyngor Celfyddydau Cymru.

Cyfyngiadau ar y Partner Busnes

Ystyrir buddsoddiad gan ymddiriedolaeth elusennol busnes dim ond os gall y prosiect ddangos budd gwirioneddol i'r busnes sy'n gwneud elw.

Cyfyngiad Daearyddol

Bydd CultureStep yn unig yn buddsoddi mewn partneriaid celfyddydol a leolir yn y DU sy'n ymgymieriad gweithgaredd sydd o fudd uniongyrchol i Gymru.

Cyfyngiadau'r Rhaglen

Gall partner celfyddydol neu fusnes wneud cais i CultureStep hyd at 3 gwaith mewn un flwyddyn ariannol ar gyfer prosiectau ar wahân, ar yr amod nad yw'r buddsoddiad cyfan gan C&B Cymru yn fwy na £10,000.

Ceisiadau Cydamserol

Ni all unrhyw sefydliad wneud cais am fuddsoddiad C&B Cymru fel y partner celfyddydol a busnes yr un pryd.

TAW

Os bydd derbynnydd CultureStep yn darparu gwasanaethau sy'n destun TAW mewnbyn, ni fydd unrhyw arian ychwanegol yn cael ei ddarparu gan C&B Cymru. Pan fydd busnes yn cael budd-daliadau nawdd ar gyfer eu buddsoddiad ystyrir bod hyn yn gyfnewid gwasanaethau ac felly mae TAW yn daladwy gan y busnes. Mae CultureStep yn grant nad yw'n ddarostyngedig i TAW allbwn.

Dilysrwydd Cynnig

Oni bai y cytunir yn wahanol gyda C&B Cymru, mae'n rhaid i bob derbynnydd gydymffurfio â'r canlynol:

- Llofnodi a dychwelyd cytundeb amserlen C&B Cymru o fewn 1 mis o'i roddi, a dechrau'r prosiect o fewn 6 mis wedi hynny;
- Rhaid i brosiectau CultureStep orffen o fewn 6 mis o'r dyddiad gorffen cytunedig, o fewn ffrâm amser o 18 mis;
- Rhaid dychwelyd adroddiadau gwerthuso ac adroddiadau ariannol terfynol i C&B Cymru o fewn 3 mis i ddiwedd y prosiect er mwyn derbyn y taliad olaf.

Bydd prosiectau sy'n methu â chydymffurfio â'r amser a gytunwyd yn colli eu hawl i'w buddsoddiadau olaf. Mae C&B Cymru yn cadw'r hawl i dynnu buddsoddiadau yn ôl, neu gofyn am ad-daliad, yn gyfan neu yn rannol.

Arweiniad Credydu Buddsoddiad

Mae'n amod o fuddsoddiad CultureStep bod yr holl dderbynwyr yn ymrwmo i gydnabod yn gyhoeddus ein cyfranogiad, a chyfranogiad y partner(iaid) busnes. Gall C & B Cymru rhoi cyngor ar y ffordd orau i wneud hyn.

Adrodd Ariannol a Gwerthusiad

Mae'n rhaid i holl dderbynwyr CultureStep baratoi adroddiadau gwerthuso ac ariannol manwl yn nodi sut y defnyddir y buddsoddiad ac unrhyw wybodaeth arall a ofynir yn rhesymol gan C&B Cymru. Bydd canllawiau yn cael eu hanfon at ymgeiswyr gyda'r ffurflen gynnig. Gellir wneud cais i dalu cost gwerthusiad fel rhan o gynnig. Ni fydd C&B Cymru yn edrych yn ffafriol ar sefydliadau / unigolion sydd wedi derbyn buddsoddiad o'r blaen ac wedi methu cynhyrchu adroddiad gwerthuso priodol.

Recordio Prosiectau

Dylai prosiectau CultureStep gael eu dogfennu yn weledol (e.e. ffotograffiaeth, film ayyb) a'i rhannu gyda C&B Cymru fel y gall etifeddiaeth barhaol gael ei greu.

Gwobrau Celfyddydau & Busnes Cymru

Disgwylir i brif partner pob buddsoddiad CultureStep gyflwyno enwebiad i Wobrau C&B Cymru, ar yr amod fod y prosiect yn cael ei ystyried yn llwyddiannus gan yr holl gyfranogion.